

EISTEDDFOD YR URDD SIR DDINBYCH 2022

Rhif 88 – Grŵp Cerdd Dant 19 – 25 oed (3 – 8 mewn nifer)

‘Cariad’ – Gwyn Erfyl



Eisteddfod

Trillais neu fwy. Caniateir dyblu lleisiau

CARIAD

Gwelais ddawns y darnau arian
Pan fydd yr haul yn golchi'r marian,
Wedyn, oedi yn syfrdandod
Machlud ar y twyn a'r tywod,
Ond fe'm daliwyd gan dy lygaid dyfnion di.

Rhywle draw uwch swae y tonnau –
Galwad gwyllan ar y creigiau,
A daw eto falm i'r galon
Wrth noswyllo'n sŵn yr eigion,
Ond fe'u ffeiriwn oll am rin dy chwerthin di.

Clywais yno stori'r dryllio,
Y waedd am help a neb yn malio,
Ac yn chwilfriw ar y glannau
Bydd broc môr y torcalonnau,
Ond angor fawr i'm cadw fydd dy freichiau di.